## Diweddariad ar Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor – Blwyddyn 5 (2021-2022)

| Cam Gweithredu | Polisi | Nodau | Gweithgaredd | Targed erbyn 2021 | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.1* | Cymraeg i Oedolion | Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg | Cynyddu gweithgarwch marchnata ac ymestyn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar bob lefel | Cynyddu nifer y cofrestriadau 20% | Dysgu Cymraeg y Fro<br>Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Mae 44 o weithwyr Cyngor Bro Morgannwg wedi'u cofrestru gyda DCyF:<br>Mynediad 12<br>Sylfaen 8<br>Canolradd 15<br>Uwch 5<br>Gloywi 4<br><br>Mae 140 o ddysgwyr ar draws y Cyngor wedi cofrestru ar gyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar hyn o bryd. Cofrestrodd 10 dysgwr yn ystod 2021/22. Cofrestrodd 3 dysgwr ar Ran 2 y cyrsiau yn 2021/22. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.2* | | Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n symud o lefelau Mynediad a Sylfaen i gyrsiau lefel Uwch | Rhoi cymorth a chanllawiau wedi'u targedu i annog dysgwyr i symud i lefel uwch o rugldder | Cynyddu cyfraddau dilyniant i lefelau uwch 20% | Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Mae 44 o weithwyr Cyngor Bro Morgannwg wedi'u cofrestru gyda DCyF:<br>Mynediad 12<br>Sylfaen 8<br>Canolradd 15<br>Uwch 5<br>Gloywi 4<br><br>Mae 140 o ddysgwyr ar draws y Cyngor wedi cofrestru ar gyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar hyn o bryd. Cofrestrodd 10 dysgwr yn ystod 2021/22. Cofrestrodd 3 dysgwr ar Ran 2 y cyrsiau yn 2021/22. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.3* | | Darparu mwy o gyrsiau iaith yn y gweithle ar amryw lefelau hyfedredd i alluogi mwy o gyflogeion i weithio'n ddwyieithog | Gwella darpariaeth yn y gweithle yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i ddechreuwyr a phobl sy'n dechrau siarad Cymraeg | Cynyddu darpariaeth yn y gweithle 100% | Dysgu Cymraeg y Fro; Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Mae 44 o weithwyr Cyngor Bro Morgannwg wedi cofrestru ar gyrsiau Cymraeg gyda DCyF. Cyflwynir y rhain drwy gymysgedd o sesiynau digidol ac wyneb yn wyneb. Cyflwynir cyrsiau Cymraeg Gwaith drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol o bell |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.4* | | Rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg gyfarfod ac ymarfer eu sgiliau iaith | Trefnu gweithgareddau cymdeithasol a 'sesiynau sgwrs' i wella hyder a lefelau hyfedredd | Sefydlu 4 lleoliad yn yr ardal i gynnal cyfleoedd wythnosol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol | Dysgu Cymraeg y Fro; Menter Bro Morgannwg | Mae DCyF a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cynnal sesiynau Amser Coffi rheolaidd yn Palmerston a'r Llyfrgell Barri, yn ogystal â chefnogi y Cynllun Siarad gyda grwpiau coffi ym mhob tref. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.5* | | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg integreiddio i rwydweithiau a sefydliadau Cymraeg eu hiaith | Cynllunio rhaglen weithgareddau cymdeithasol amrywiol i ddod â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg at ei gilydd | Llunio calendr blynyddol o ddigwyddiadau gan roi cymorth marchnata | Dysgu Cymraeg y Fro Menter Bro Morgannwg | Mae DCyF yn trefnu digwyddiadau rheolaidd i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg rhugl gyda'i gilydd gan gynnwys dathliadau tymhorol (Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, Nadolig) a boreau coffi. Mae digwyddiadau wedi'u cynnal o bell, ond mae mwy yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb eto wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.<br>Mae Menter Bro Morgannwg yn hysbysebu ac yn hyrwyddo llawer o ddigwyddiadau, clybiau a sesiynau i oedolion, gan gynnwys coginio, dawns, ymarfer corff, bygi-ffit, cerddoriaeth, darlithoedd a theithiau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.6* | | Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd | Trefnu cyrsiau i deuluoedd lle gall oedolion a phlant fwynhau gweithgareddau sy'n cefnogi dysgu iaith | Trefnu cyrsiau iaith teuluol yn ystod gwyliau'r ysgol | Dysgu Cymraeg y Fro | Daeth y grant a oedd yn cefnogi Clwb Gwaith Cartref Cymru i deuluoedd â phlant yn ysgolion Cymru, Clwb Ni, i ben ar ôl y pandemig ac nid yw'n cael ei gynnal mwyach o 2022. Ymchwilir i ffrydiau ariannu newydd i ailgyflwyno'r clwb gwaith cartref.<br>Adnoddau i rieni sydd ar gael ar wefannau DCyF a Bro Morgannwg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.7* | | Rhoi cyfleoedd ar-lein i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu Cymraeg | Sefydlu ystafell sgwrsio/fforwm arlein i ddysgwyr Cymraeg yn yr ardal | I'w sefydlu erbyn mis Medi 2017 | Dysgu Cymraeg y Fro Canolfan Genedlaethol | Mae ffrydiau Facebook a Twitter DCyF yn cael eu defnyddio'n gynyddol gan ddysgwyr a'r sefydliad er mwyn rhannu gwybodaeth am gyrsiau a digwyddiadau, cyfleoedd sgwrsio ac ati. Mae DCyF yn rhannu gwybodaeth gan sefydliadau partner a darparwyr Cymraeg eraill gan gynnwys Menter Bro Morgannwg a Chyngor y Fro.<br><br>Mae nifer y dilynwyr ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Menter Bro Morgannwg wedi cynyddu. Parhawyd i gynnal cyfarfodydd ar-lein ar gyfer partneriaid, cyrsiau a digwyddiadau cymdeithasol y Cynllun Siarad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.1* | Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | Rhoi cyfleoedd i rieni a phlant ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd | Trefnu sesiynau amser stori yn Gymraeg mewn amryw leoliadau yn y Fro, yn arbennig mewn llyfrgelloedd | Sefydlu sesiynau amser stori ym mhob un o'r prif drefi a'u cynnwys mewn darpariaeth prif ffrwd | Cyngor Bro Morgannwg;Menter Bro Morgannwg | Mae sesiynau Amser Stori wedi'u cyflwyno'n wythnosol yn y Barri a Llanilltud ers mis Mehefin 2021, ac wedi ailddechrau ym Mhenarth ym mis Chwefror 2022 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.2* | | Gweithio gyda phartneriaid allweddol i greu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio Cymraeg y tu allan i'r ysgolion i atgyfnerthu'r cyswllt rhwng iaith addysg a'r gymuned | Llunio strategaeth ar y cyd sy'n galluogi'r Gymraeg i ddod yn iaith gweithgareddau cymdeithasol a hamdden | Cyhoeddi'r strategaeth ar y cyd erbyn mis Hydref 2017 | Gwasanaeth Ieuenctid y Fro; Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc; Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru; | Mae'r Urdd, ar y cyd â Menter Bro Morgannwg, yn parhau i ddarparu clybiau wythnosol i blant oed cynradd gan gynnwys nofio, dawns, drama, crefft a choginio. Mae'r Urdd yn cynnal clwb ieuenctid wythnosol yn YMCA Y Barri ar gyfer blynyddoedd 7 i 9. |
| *2.3* | | Cynyddu nifer y gweithgareddau cymdeithason yn y Gymraeg i blant oedran cynradd | Trefnu cyfres o weithgareddau hamdden ar gyfer amryw ddiddordebau e.e. chwaraeon, drama, dawns, celf a chreft, gemau cyfridiadur, gweithgareddau, awyr agored ac ati | Cytuno ar y rhaglen a'i gweithredu erbyn mis Medi 2017 | Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru; Gwasanaethau Hamdden Bro Morgannwg | Mae amrywiaeth o glybiau a dosbarthiadau wedi'u cyflwyno yn Gymraeg ar gyfer plant oedran cynradd – karate, dawns, drama, pobi, ioga, arlunio, marchogaeth – yn ogystal â phêl-rwyd a phêl-droed, a dosbarthiadau gwyddoniaeth.<br><br>Mae Adran Chwaraeon yr Urdd ar y cyd â Menter Bro Morgannwg yn darparu clybiau wythnosol gan gynnwys gwersi nofio a gweithgareddau hanner tymor. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.4* | | Rhoi cymorth i rieni â phlant mewn ysgolion Cymraeg i leddfu pryderon am helpu gyda gwaith cartref | Sefydlu Clybiau Gwaith cartref mewn ysgolion Cymraeg neu Ganolfannau Cymunedol i gefnogi rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg | Trafodaethau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol gyda bwriad i sefydlu Clybiau Gwaith Cartref erbyn Medi 2018. | Ysgolion Cynradd Cymraeg;<br>Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Dysgu Cymraeg y Fro | Daeth y grant a oedd yn cefnogi Clwb Gwaith Cartref Cymru i deuluoedd â phlant yn ysgolion Cymru, Clwb Ni, i ben ar ôl y pandemig ac nid yw'n cael ei gynnal mwyach o 2022. Ymchwilir i ffrydiau ariannu newydd i ailgyflwyno'r clwb gwaith cartref. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.5* | | Annog disgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy yn gymdeithasol. | Yr ysgol i gytuno ar Ddatganiad Cenhadaeth a'r cod ymddygiad a sefydlu Fforwm Defnydd Iaith | Fforwm Defnydd Iaith i gynnwys cynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol i'w sefydlu erbyn mis Medi 2017 | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; | Mae hyn yn cael ei gydlynu fel rhan o'r CSGA. |
| *2.6* | | Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned | Sefydlu Fforwm Pobl Ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a'i gefnogi i drefnu cyfres o weithgareddau cymdeithasol | Trefnu o leiaf 3 gweithgaredd Cymraeg arwyddocaol yn ystod pob blwyddyn ysgol | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru | Mae hyn yn cael ei gydlynu fel rhan o'r CSGA. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.7* | | Rhoi cyfleoedd i bobl ifanc yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth | Cefnogi'r clwb ieuenctid Cymraeg yng Nghanolfan Palmerston, y Barri ac ystyried y posibiliad o sefydlu darpariaeth debyg yn rhywle arall | Ymestyn y ddarpariaeth bresennol i gynnwys Penarth a'r Bont-faen | Cyngor Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru | Mae nifer o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol ar gyfer disgyblion o bob oed yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, yn ogystal â chlybiau ieuenctid a ddarperir gan yr Urdd a Menter Bro Morgannwg. |
| *2.8* | | Rhannu gwybodaeth â phobl ifanc am gyfleoedd swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog | Sicrhau bod gan Gyrfa Cymru a gofalwyr mewn ysgolion y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi sy'n gofyn am allu yn y Gymraeg a rhannu'r wybodaeth hon â phobl ifanc | Gyrfa Cymru, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a'r Fro i gytuno ar gynllun gweithredu erbyn Medi 2017 a dyfeisio ffyrdd arloesol o roi gwybodaeth drwy apiau a'r cyfryngau cymdeithasol | Gyrfa Cymru;<br>Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro; | Mae'r holl swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog ar wefan Gyrfa Cymru. Mae yna hefyd adran i bobl edrych ar swyddi lle mae pynciau penodol yn ddefnyddiol a'r Gymraeg yn cael ei chynnwys.<br><br>Yn ogystal, mae Gyrfa Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle drwy sesiwn grŵp LMI wedi'i hanelu at flwyddyn 10 ac mae ganddi fideo YouTube sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y gwaith<br><br>Bydd ymgynghorwyr yn rhoi gwybod i bobl ifanc am swyddi gwag penodol os ydynt wedi nodi |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | diddordeb galwedigaethol.<br><br>Mae cynnig ymgysylltu busnes Gyrfa Cymru i ysgolion yn cynnwys digwyddiad Cymraeg yn y Gweithle a gwahoddir pob ysgol i ddigwyddiad Cymraeg yn y Gweithle Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol<br><br>Mae ganddynt ymgynghorydd sy'n siarad Cymraeg ym Mro Morgannwg ac ymgynghorwyr Cymru'n Gweithio sy'n gallu darparu cyfweliadau cyfarwyddyd yn Gymraeg (mae un ohonynt yn aelod o'r grŵp rhanddeiliaid cyfrwng Cymraeg). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.9* | | Defnyddio technoleg gyfathrebu i hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog | Creu gwefan benodedig, ap a chyfeirlyfr i hysbysebu swyddi a phrentisiaethau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg | Sefydlu Hyb rhannu gwybodaeth i brif gyflogwyr yr ardal y gellir ei ddefnyddio i recriwtio staff a phrentisiaid dwyieithog | Gyrfa Cymru;<br>AALl;<br>Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro; | Mae nifer o safleoedd recriwtio ar gyfer swyddi a gyrfaoedd yn y Gymraeg, wedi'u hysbysebu a'u rhannu gan Gyrfa Cymru a Phrifysgol De Cymru.<br>Mae CCF yn cynnig nifer o gyrsiau yn Gymraeg (gofal plant, chwaraeon, neu'n ddwyieithog, iechyd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | a gofal cymdeithasol) sy'n helpu i gefnogi myfyrwyr i ddilyn gyrfaoedd dwyieithog. Mae gan yr Urdd wybodaeth a chyngor ar brentisiaethau Cymraeg.<br><br>Mae Gyrfa Cymru yn hysbysebu swyddi gwag sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg drwy ein gwefan ein hunain. Maent hefyd yn hysbysebu ystod eang o safleoedd chwilio am swyddi gan gynnwys safleoedd penodol sy'n hysbysebu swyddi gwag Cymraeg ac yn cynnal gwasanaeth paru prentisiaethau Chwilio am Brentisiaethau Llywodraeth Cymru. |
| *2.10* | | Cefnogi datblygiad gofal plant yn y Gymraeg | Cynnal adolygiad o anghenion gofal plant rhieni gyda phlant mewn addysg Gymraeg | Cefnogi datblygiad gofal plant ar ôl ysgol a chofleidiol lle nodir anghenion. | Menter Bro Morgannwg;<br>RhPPI;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Mae'r nod a'r maes trafod hwn yn un o bynciau allweddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd Cylch Meithrin Llanilltud Fawr yn symud i safle mwy yn 2022 i alluogi gofal plant cyfrwng Cymraeg cofleidiol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.11* | | Cefnogi datblygiad cyfleoedd gofal plant Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol | Parhau â chynlluniau chwarae Cymraeg dros wyliau'r ysgol | Cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu cynlluniau chwarae gan 100% | Menter Bro Morgannwg;<br>RhPPI;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Cyflwynodd Menter Bro Morgannwg gynlluniau chwarae mynediad agored BWRLWM yn ystod gwyliau'r haf, y Nadolig a'r Pasg yn ogystal â gwyliau hanner tymor yn y Barri, Penarth, a Llanilltud Fawr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.12* | | Darparu gofal dydd yn Gymraeg | Cynnal astudiaeth o ddichonoldeb i ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu darpariaeth gofal dydd Gymraeg yn y Fro | Cwblhau astudiaeth o ddichonoldeb erbyn Mawrth 2017 | Menter Bro Morgannwg;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Mae'r nod hwn a'r maes gweithgarwch hwn yn cael eu trafod ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun. Mae gofal dydd cyfrwng Cymraeg ar gael drwy gylchoedd chwarae ac addysg feithrin. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.13* | | Cynyddu nifer y gweithgareddau Cymraeg sy'n darparu ar gyfer diddordebau teuluoedd | Adeiladu ar lwyddiant Gŵyl Fach y Fro a threfnu digwyddiadau tebyg i gyd-daro â dathliadau'r Nadolig, Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi | Trefnu 3 diwrnod hwyl i'r teulu yn ystod y flwyddyn mewn rhannau gwahanol o'r sir a chynyddu nifer y mynychwyr i ŵyl Fach y Fro i 3,000 | Menter Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru; Dysgu Cymraeg y Fro Cyngor Bro Morgannwg; | Gweithiodd staff Menter Bro Morgannwg gyda Menter Caerdydd i gynnal digwyddiad Tafwyl digidol / torf gyfyngedig ym mis Mehefin 2021 – a fu'n llwyddiannus iawn ac a gafodd ei weld gan dros 45,000 o wylwyr ar wahanol lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd Gŵyl Fach y Fro yn ddigidol ym mis Ebrill 2021 ar ap AM, platfform ar-lein sy'n rhannu ac yn dathlu creadigrwydd Cymreig.<br><br>Roedd Eisteddfod yr Urdd yn ddigwyddiad digidol yn 2021, ond mae'n dychwelyd wyneb yn wyneb yn 2022 gyda llawer o bobl ifanc o'r Fro yn cymryd rhan mewn cystadlaethau rhagbrofol ym mis Mawrth 2022 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.14* | | Datblygu'r sin gerddoriaeth Gymraeg a'r celfyddydau drwy gynllun Gigs Bach y Fro | Parhau â'r ddarpariaeth cerddoriaeth a chelfyddydau Gymraeg mewn lleoliadau gwahanol ledled y Fro ac adeiladu ar lwyddiant Gigs Bach y Fro | Cynnal 6 digwyddiad y flwyddyn i oedolion yn y Fro a sicrhau bod o leiaf 60 o bobl yn mynychu pob digwyddiad | Menter Bro Morgannwg; Cyngor Bro Morgannwg | Gweithiodd staff Menter Bro Morgannwg gyda Menter Caerdydd i gynnal digwyddiad Tafwyl digidol / torf gyfyngedig ym mis Mehefin 2021 – a fu'n llwyddiannus iawn ac a gafodd ei weld gan dros 45,000 o wylwyr ar wahanol lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd Gŵyl Fach y Fro yn ddigidol ym mis Ebrill 2021 ar ap AM, platfform ar-lein sy'n rhannu ac yn dathlu creadigrwydd Cymreig. |
| *2.15* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg i blant a phobl ifanc. | Sicrhau bod gwersi nofio ar gael yn Gymraeg i'r holl ysgolion Cymraeg | Yr holl ysgolion Cymraeg i gael cynnig gwersi nofio yn Gymraeg erbyn mis Medi 2017 | Gwasanaethau Hamdden;<br>Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor);<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro | Mae gan Ysgolion Cymraeg bellach gyfle i gael gwersi nofio'n Gymraeg drwy drefniant blaenorol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.16* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Sicrhau bod gwersi nofio ar gael drwy ddarpariaeth ôl-ysgol yn Gymraeg hyd at o leiaf Lefel 1 | Gwersi nofio hyd at Lefel 1 i fod ar gael yn Gymraeg yn yr holl brif ganolfannau hamdden erbyn mis Medi 2017 | Gwasanaethau Hamdden;<br>Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor);<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Coleg Caerdydd a'r Fro | Gwnaed ymdrechion i ystyried y galw a'r cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol yn Gymraeg ac mae dosbarthiadau lefel 1 bellach ar gael yng Nghanolfan Hamdden y Barri ar adeg benodol. |
| *2.17* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Sicrhau bod dosbarthiadau ffitrwydd ar gael yn Gymraeg | Sefydlu o leiaf 2 ddosbarth ffitrwydd Cymraeg erbyn Medi 2018 a chynyddu'r nifer dros y pedair blynedd nesaf | Gwasanaethau Hamdden;<br>Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor);<br>Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru | Mae Menter Bro Morgannwg wedi cynnig dosbarthiadau a chlybiau i blant, pobl ifanc ac oedolion mewn cadw'n heini, bwtcamp, bygi-ffit, karate, dawns, pêl-rwyd a phêl-droed.<br><br>Mae'r Urdd hefyd yn darparu llawer o glybiau a chyfleoedd chwaraeon cyfrwng Cymraeg gan gynnwys Blocs Cychwyn yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot<br><br>Mae'r cyllid a ddarperir drwy bartneriaeth Chwaraeon Cymru/Cyngor Bro Morgannwg wedi datblygu gweithgareddau ychwanegol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *2.18* | | Cynyddu nifer y cyfleoedd hamdden yn Gymraeg | Cydweithredu â chymdeithasau chwaraeon i sicrhau bod hyfforddiant ar gael yn Gymraeg mewn gweithgareddau fel gymnasteg, pêlrwyd, hoci, tennis, rygbi, pêl-droed ac | Cytuno ar gynllun gweithredu erbyn mis Medi 2018 gyda'r prif gymdeithasau chwaraeon i hyfforddi hyfforddwyr Cymraeg a sefydlu clybiau hamdden | Cymdeithasau Chwaraeon; Gwasanaethau Hamdden; Urdd Gobaith Cymru | Sesiynau i ddisgyblion Ysgol Bro Morgannwg a gyflwynir mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru o ran cyflwyno gweithgareddau mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol.<br>Gweithgareddau hamdden Cymraeg gan gynnwys pêl-droed, pêl-rwyd a karate a ddarperir gan Fenter Bro Morgannwg, a gweithgareddau chwaraeon fel pêl-droed ac athletau a ddarperir gan yr Urdd. |
| *2.19* | | Sirchau bod Canolfannau Hamdden yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg | Penodi Hyrwyddwr Iaith ymhob canolfan hamdden sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg yn weledol ac yn ei darpariaeth hamdden | Hyfforddi Hyrwyddwyr Iaith i'w gwblhau erbyn mis Medi 2017 a sefydlu prosesau monitor i werthuso cynnydd o ran defnyddio'r iaith | Gwasanaethau Hamdden; Legacy Leisure (Contractwr Rheoli Hamdden y Cyngor); Urdd Gobaith Cymru; Menter Bro Morgannwg | Mae'r Gymraeg bellach yn eitem barhaol ar agenda'r cyfarfod rheoli Cleient/ Contractwr |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *3.1* | Gweithgareddau Cymunedol | Defnyddio technoleg gyfathrebu fel llwyfan gwybodaeth a rhwydweithio i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr | Datblygu 'Echlysur' yn y Fro fel rhwydwaith cyfathrebu sy'n rhoi gwybodaeth i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg am weithgareddau, digwyddiadau, cyfleoedd swyddi ac ati | Ehangu marchnata'r rhwydwaith a phennu targed pum mlynedd i gael 3,000 o danysgrifwyr | Menter Bro Morgannwg; Gwasanaeth Ieuenctid; Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg; Urdd Gobaith Cymru | Mae Menter Bro Morgannwg yn defnyddio llwyfannau digidol amrywiol i rannu, hyrwyddo ac annog trigolion i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg yn y Fro ac mae'n cynnwys<br><br>Mae dros 1,685 o drigolion yn tanysgrifio i e-gylchlythyr Menter Bro Morgannwg – sy'n rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y Fro. Mae hon yn ffordd effeithiol o hyrwyddo gweithgareddau'r Fenter, yn ogystal â rhannu gwybodaeth / hysbysebion gan bartneriaid Cymraeg eraill yn yr ardal fel yr Urdd a Menter Caerdydd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *3.2* | | Defnyddio technoleg gyfathrebu i gadw mewn cysylltiad â disgyblion ar ôl iddynt adael Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | Sicrhau bod manylion cyswllt cynifer o'r rhai sy'n gadael ysgol â phosibl yn cael eu hychwanegu at y llwyfan rhwydweithio | Casglu manylion cyswllt yn flynyddol | Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg;<br>Menter Bro Morgannwg;<br>Gwasanaeth Ieuenctid | Ceir grwpiau anffurfiol ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ar sut all y rhain gael eu datblygu a'u hehangu. |
| *3.3* | | Sicrhau cynhwysiant cymunedol a gwirfoddolwyr wrth gynllunio a threfniadau gweithgareddau Cymraeg | Sefydlu Hyb Cymunedol i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol yn y Gymraeg | Sefydlu Hyb Cymunedol yn y Fro erbyn mis Medi 2018 a'u helpu i drefnu rhaglen flynyddol o weithgareddau / digwyddiadau poblogaidd | Menter Bro Morgannwg;<br>Urdd Gobaith Cymru;<br>Cyngor Bro Morgannwg | Mae Menter Bro Morgannwg yn defnyddio ystod o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol digidol i hyrwyddo ei gwasanaethau, gan gynnwys:<br>Twitter (1,555)<br>Instagram (988) a<br>Facebook (1,060)<br><br>Mae nifer y dilynwyr ar bob platfform wedi cynyddu ers y llynedd – Twitter +283, Instagram +659, Facebook +209 |
| *3.4* | Nid yw cyllideb bresennol MBM yn ddigon ar gyfer erthyglau wythnosol | Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg mewn rhwydweithiau digidol a phrint | Parhau i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn y Glamorgan Gem sy'n bapur cymunedol print ac ar-lein | Datblygu darpariaeth sy'n cynnwys erthyglau yn y Glamorgan Gem yn y fersiynau print ac ar-lein | Menter Bro Morgannwg;<br>Glamorgan Gem | Rhoddwyd y gorau i argraffu'r Glamorgan Gem yn 2019. At hynny, oherwydd diffyg cyllid, nid yw Menter Bro Morgannwg yn cynhyrchu cynnwys dwyieithog rheolaidd ar hyn o bryd. Mae Cyngor Bro |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Morgannwg yn parhau i rannu cynnwys a hysbysebu pan fo'n bosibl mewn cyfryngau printiedig perthnasol |
| *3.5* | | Ystyried y posibiliad o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Fro | Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried y potensial o sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Barri | Ceisio arian a chynnal astudiaeth ddichonoldeb erbyn mis Medi 2018 | Cyngor Bro Morgannwg; Llywodraeth Cymru; Menter Bro Morgannwg; Cyngor Tref y Barri. | Eto i fynd i'r afael ag ef |
| | | | | | | |
| *4.1* | Cymraeg yn y Gweithle | Y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg | Parhau i weithredu Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg. | Caiff y grwp Insight ddiweddariadau rheolaidd ar ddatblygiadau a materion cydymffurfiaeth | Cyngor Bro Morgannwg | Datblygwyd cynllun gweithredu Safonau'r Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt. |
| *4.2* | | Asesu sgiliau ieithyddol staff | Cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o sgiliau ieithyddol staff a nodi bylchau yn y gwasanaethau sy'n gofyn am sgiliau dwyieithog a nodi anghenion hyfforddiant | Cwblhau archwiliad a dadansoddiad o sgiliau iaith erbyn mis Rhagfyr 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Cynhaliwyd ail archwiliad o sgiliau ieithyddol ym mis Medi 2018.<br>Casglwyd gwybodaeth gan bob defnyddiwr cyfrifiadur.<br>Bydd archwiliad newydd yn cael ei gynnal yn 2022/23.. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.3* | | Cynyddu nifer y staff dwyieithog i ddarparu gwasanaethau'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg | Y Cyngor i recriwtio digon o siaradwyr Cymraeg, buddsoddi mewn staff sy'n siarad Cymraeg a chefnogi staff i wella eu sgiliau Cymraeg ar dras pob lefel dysgu iaith | Adolygu'r Strategaeth Sgiliau Iaith erbyn mis Medi 2017 gyda'r nod o sicrhau fod cyfradd y staff dwyieithog yn adlewyrchu'n fras cyfradd y Cyngor Sir erbyn 2021 | Cyngor Bro Morgannwg | Mae'r Cyngor yn gweithredu'n bositif i hyfforddi mwy o staff a recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r drafodaeth hon yn cael ei chynnal ar hyn o bryd yng nghyfarfodydd diwygiedig Mwy na Geiriau. |
| *4.4* | | Mabwysiadu polisi recriwtio rhagweithiol a fydd yn galluogi'r Cyngor i roi mwy o wasanaethau dwyieithog yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg | Yr holl swyddi i'w dynodi'n naill ai Cymraeg 'hanfodol' neu 'ddymunol'. Swyddi i'w hystyried yn 'hanfodol' os nad oes siaradwr Cymraeg yn cael ei gyflogi yn y tîm hwnnw neu os yw rheolwyr yn gweld bod angen mwy o gapasiti dwyieithog. | Strategaeth Sgiliau Iaith ddiwygiedig yn amlinellu'r polisi recriwtio i gael ei llunio erbyn mis Mawrth 2018 | Cyngor Bro Morgannwg | Pob swydd i fod o leiaf yn rai Cymraeg 'dymunol'. Bwriedir cynnal cynllun peilot yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i dreialu'r Gymraeg fel 'hanfodol' ym mhob swydd. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r di-Gymraeg gwblhau'r cwrs Cwrteisi Cymraeg 10 awr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.5* | | Rhoi cyfleoedd i staff wella eu sgiliau ieithyddol | Llunio rhaglen o gyrsiau iaith i ddatblygu sgiliau a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn mis Mehefin 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Gall staff fynd i gwrs Dysgu Cymraeg wythnosol yn ystod eu hamser gwaith ac yn rhad ac am ddim; ariennir hyn gan DCYF a Chyngor Bro Morgannwg. Mae 44 o aelodau staff wedi cofrestru ar gyrsiau. |
| *4.6* | | Galluogi staff ac aelodau etholedig i fod yn ymwybodol o hanes a diwylliant y Gymraeg gan gynnwys cydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg | Trefnu rhaglen o hyfforddiant Ymwybyddiaeth a Chydymffurfiaeth y Gymraeg a chynnwys cwrs sefydlu i staff newydd | Cytuno ar raglen hyfforddiant erbyn mis Mehefin 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Bydd modiwl Ymwybyddiaeth y Gymraeg newydd yn cael ei gyflwyno yn haf 2022. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.7* | | Creu amgylchedd sy'n annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg | Creu adnoddau, deunydd hyrwyddo ac effaith weledol sy'n hybu defnyddio'r iaith ac yn meithrin parch a chefnogaeth at ddwyieithrwydd | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Datblygwyd bathodynnau ar e-byst Cymraeg i siaradwyr a dysgwyr. Siaradwyr Cymraeg yn gwisgo cortynnau gwddf. Arwyddion drwy'r adeilad yn dangos y croesewir siarad Cymraeg. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.8* | | Rhoi cymorth rhyngrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Defnyddio’r fewnrwyd i gyfeirio staff at adnoddau iaith defnyddiol e.e. e-ddysgu, gramadeg ar-lein a gwirwyr sillafu, geiriaduron ar-lein ac adnoddau cyfieithu | Cwblhau rhestr o adnoddau ar-lein erbyn mis Ionawr 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Mae tudalen ar gael ar fewnrwyd y staff ar gyfer dysgwyr sydd â dolenni i adnoddau a thudalen i siaradwyr sydd â manylion am eu hawliau |
| *4.9* | | Rhoi cymorth rhyngrwyd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Datblygu mewnrwyd i gyfeirio staff at gyrsiau Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg yn y gymuned | Cwblhau erbyn mis Hydref 2016 a’i ddiweddaru’n gyson | Cyngor Bro Morgannwg; Dysgu Cymraeg y Fro | Gweler uchod. Mae grŵp sgwrsio anffurfiol hefyd ar gyfer dysgwyr |
| *4.10* | | Normaleiddio defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle | Asesu dewisiadau iaith staff mewn perthynas â gweithrediadau mewnol: Gohebiaeth; ffurflenni; cwynion; adolygiadau perfformiad; anghenion hyfforddiant; polisïau staff; cyfarfodydd mewnol ac ati | Asesiad i’w gwblhau erbyn mis Mawrth 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Gwnaed ymarfer archwilio e.e. arolwg staff Cymraeg i siaradwyr Cymraeg Lle y bo'n bosibl, mae'r holl gyfathrebu mewnol yn ddwyieithog. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.11* | | Hyrwyddo cynlluniau sy’n dangos yn weledol y croesewir y Gymraeg yn y gweithle | Parhau i ddatblygu mentrau sy’n creu amgylchedd sy’n meithrin y defnydd o’r Gymraeg gan staff e.e. bathodynnau, posteri,<br><br>Cortynnau gwddf, Defnyddio’r logo *Cymraeg* ar e-byst a’r fewnrwyd, llofnodion e-bost a negeseuon allan o’r swyddfa | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Llofnodion e-byst bellach yn dangos yn glir os yw staff yn siarad neu’n dysgu Cymraeg |
| *4.12* | | Dosbarthu deunydd hyrwyddo’r Gymraeg ar fewnrwyd y staff | Dosbarthu bathodynnau, cortynnau gwddf, posteri, creu arbedwyr sgrin dwyieithog a hyrwyddo cyrsiau Cymraeg | Parhaus | Cyngor Bro Morgannwg | Rheolaidd |
| *4.13* | | Datblygu hyder wrth ysgrifennu Cymraeg | Gosod Cysill a Cysgeir (gwirwyr gramadeg a sillafu Cymraeg) ar gyfrifiaduron ac iPads yr holl staff ac aelodau etholedig | Gosod yr holl becynnau cyfrifiadur wedi’u gosod ac ar waith erbyn mis Rhagfyr 2016 | Cyngor Bro Morgannwg | Mae hwn wedi'i osod ar bob cyfrifiadur. Mae grant newydd a dderbyniwyd gan y gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi talu am drwydded i'r holl staff allu defnyddio fersiynau wedi'u diweddaru o'r feddalwedd hon. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *4.14* | | Annog staff ac aelodau etholedig i ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfodydd a chyflwyniadau mewnol ac allanol | Rhoi hyfforddiant ar sgiliau cyflwyno yn Gymraeg ac ystyried ymarferoldeb darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd mewnol | Llunio rhaglen hyfforddiant erbyn mis Medi 2017 | Cyngor Bro Morgannwg | Mae'r holl ohebiaeth gan y Rheolwr Gyfarwyddwr yn ddwyieithog.<br><br>Mae rhai sesiynau hyfforddi staff mewnol wedi cael eu darparu yn Gymraeg, lle'r oedd cyfleoedd niferus i fynychu ar gael roedd un o'r rhain yn Gymraeg. |